Enghreifftiau o roi hawliau plant ar waith yn Nhŷ Hafan.

Mae gofal wedi'i deilwra i'r person ifanc unigol yn egwyddor ganolog i'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu yma yn Nhŷ Hafan. Pryd bynnag y gallwn, rydyn ni'n ymdrechu i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau ynghylch eu hanghenion gofal a hamdden, beth bynnag yw eu sgiliau cyfathrebu neu eu gallu gwybyddol.

Mae cyffyrddiadau personol yn cael eu gwneud i stafell pob person ifanc sy'n dod i aros gyda ni. Bydd gan bawb ohonyn nhw blât enw ar ddrws eu stafell wely, a byddan nhw wedi gallu rhoi mewnbwn i'r broses o'i ddylunio neu ei wneud. Bydd y pethau maen nhw'n eu hoffi a'u diddordebau yn cael eu hystyried wrth baratoi'r gwely a'r stafell. Rydyn ni'n defnyddio dillad gwely priodol, hoff bosteri ac ati i wneud i'r stafell deimlo'n gartrefol ac yn gyfarwydd. Bydd gwaith celf a chrefft y maen nhw wedi ei greu ar ymweliadau blaenorol yn cael ei arddangos yn y stafell, ac mae croeso iddyn nhw ddod ag eiddo personol fel bod eu stafelloedd mor gyfforddus â phosib a'u bod nhw'n rhoi eu 'stamp eu hunain' arnyn nhw.

Gall un o'n gweithwyr chwarae sydd â diddordeb arbennig mewn gweithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau drefnu i ymweld â'r bobl ifanc gartref ymlaen llaw er mwyn trafod sut gallan nhw gael y gorau o'u hymweliad. Bydd e'n siarad â nhw am beth maen nhw eisiau o'r gwasanaeth, ac yn ceisio trefnu digwyddiadau / gweithgareddau arbennig, os yw hynny'n bosib, i ymateb i'w dymuniadau.

Yn Nhŷ Hafan mae gennym ni 'gwtsh pobl ifanc', sef lle penodol at ddefnydd pobl ifanc yn eu harddegau yn unig. Mae'n cynnwys y 'cyfarpar gêmau' diweddara, ac yn fan lle gallan nhw dreulio amser ac ymddwyn fel pobl ifanc nodweddiadol. Yn y stafell yma mae soffas arbennig, y gall teclynnau codi fynd o danyn nhw. Mae hynny'n golygu bod y bobl ifanc yn gallu gadael eu cadeiriau olwyn ac eistedd ar y soffa i chwarae gêmau cyfrifiadur, yn union fel unrhyw berson ifanc arall.

Un o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn Nhŷ Hafan yw cymorth i deuluoedd ar gyfer cynllunio gofal diwedd bywyd a gwneud penderfyniadau ynghylch ymyrraeth feddygol. Os yw person ifanc eisiau bod yn rhan o'r trafodaethau hyn a gwneud y penderfyniadau yma mae gennym ni'r arbenigedd i allu hwyluso hynny. Yn wir, mae gennym brofiad o sawl person ifanc yn llunio'u cynlluniau eu hunain ar gyfer y gofal

maen nhw eisiau ar ddiwedd eu bywyd, a'u cynlluniau angladd hynod fanwl a phersonol eu hunain.

Tracy Jones – Uwch Ymarferydd, Tîm Cymorth i Deuluoedd, www.tyhafan.org